OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 578 (Cy.50)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Cymeradwyo Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	- -	*27 Chwefror 2007*
Yn dod i rym	- -	*2 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 87 a 100 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**1**) i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) a chan ei fod wedi'i fodloni bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer cyhoeddi'r cod a gymeradwywyd gan y Gorchymyn hwn, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 2 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran rheoli pob eiddo preswyl yng Nghymru.

Cymeradwyo cod ymarfer

2. Gan eithrio Atodiadau 4 i 6 caiff , *The Code of Practice for Private Retirement Housing (Wales)* (ISBN 095266 9137), a gafodd ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth ar 22 Rhagfyr 2006 gan Gymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol ac sydd i'w gyhoeddi gan Chain and Pyle, Unit 3, King James Court, King James Street, Llundain SE1 0DH, ei gymeradwyo.

Dirymu gorchmynion a thynnu cymeradwyaethau yn ôl

3. Dirymir Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Rhif 2) 1995(**3**) a Gorchmyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) 1998(**4**); a thynnir yn ôl y cymeradwyaethau a roddwyd gan y Gorchmynion hynny.

(**1**) 1993 p.28; diwygiwyd adran 87 gan adran 150 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15) ac Atodlen 9 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87 a 100, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, ac adran 177 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**3**) O.S. 1995/3149